# CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 3 Rhagfyr 2024

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Cynghorydd Glyn Haynes (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Non Dafydd (Is-gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Geraint Bebb, Jeff Evans, Neville Evans, Douglas M Fowlie, Kenneth P Hughes, Trefor Ll Hughes MBE, Aled M Jones, Dyfed W Jones, Gwilym O Jones, John Ifan Jones, Robert Ll Jones, Euryn Morris, Jackie Lewis, Pip O'Neill, Derek Owen, Llio A Owen, Gary Pritchard, Dylan Rees, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Keith Roberts, Margaret M Roberts, Ken Taylor, Dafydd R Thomas, Ieuan Williams, Robin Williams, Sonia Williams, Arfon Wyn |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro,<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151,<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol,<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc,<br>Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid,<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion,<br>Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo,<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd,<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai,<br>Pennaeth Democratiaeth,<br>Rheolwr, Rhaglen, Perfformiad a Chynllunio Corfforaethol (GP),<br>Swyddog Cyfathrebu (GJ),<br>Swyddog Pwyllgorau (MEH),<br>Swyddog Gwasanaethau Pwyllgorau Gweddarlledu (FT). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorwyr Paul Ellis, Carwyn Jones, Nicola Roberts, Alwen Watkin a Liz Wood. |

Oherwydd problemau technegol bu'n rhaid gohirio'r cyfarfod tan 2.20 p.m..

**1. COFNODION**

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfodydd canlynol o Gyngor Sir Ynys Môn yn gywir:-

- 26 Medi, 2024
- 6 Tachwedd, 2024 (Arbennig)

## 2. DATGAN BUDDIANT

Fe wnaeth y Cynghorydd Derek Owen ddatgan buddiant personol yn gysylltiedig ag Eitem 4 – Rhybudd o Gynnig – Mân-ddaliadau gan fod ei frawd yn rhentu mân-ddaliad.

## 3. DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR

Gwnaeth y cadeirydd y cyhoeddiadau a ganlyn:-

- Llongyfarchiadau i Lucas Williams o Gaergybi a enillodd deitl y Gymanwlad yn ddiweddar am godi pwysau yn Ne Affrica. Enillodd ddwy fedal Aur a medal Arian a hefyd enillodd deitl cyffredinol y bencampwriaeth fel y codwr pwysau iau gorau.
- Llongyfarchiadau i Bleddyn Môn yn wreiddiol o Laneilian a ddewiswyd i fod yn rhan o Dîm Inneos Prydain yng nghystadleuaeth hwylio nodedig Cwpan America yn Barcelona ym mis Hydref. Mae Bleddyn wedi bod yn cynrychioli Prydain Fawr mewn digwyddiadau hwylio ers yn 13 oed, a dyma'r trydydd tro iddo fod yn rhan o ymgyrch Cwpan America Prydain.
- Llongyfarchiadau i Gail Manning, o Gaergybi a enillodd gapiau swyddogol mewn seremoni arbennig yng Nghaerdydd yn ddiweddar am gynrychioli Cymru mewn pêl-droed. Dyfarnodd y seremoni gapiau i'r holl ferched a gynrychiolodd Cymru rhwng 1973 a 1993. Chwaraeodd Gail dros Lerpwl a Dinas Bangor ac roedd hi'n dal i chwarae tan yn ddiweddar i Amlwch a Bae Trearddur.
- Llongyfarchiadau i Glwb Pêl-droed Holyhead Hotspur ar gyrraedd trydedd rownd Capan Cymru.
- Da oedd gweld Côr Meibion Goronwy yn cynrychioli'r Ynys drwy ganu cyn gêm rygbi Cymru yn erbyn De Affrica yng Nghaerdydd fis diwethaf. Ffurfiwyd y côr ym Menllech yn 2016 gyda'r bwriad o adnewyddu diddordeb mewn canu corau meibion lleol. Mae'r côr wedi tyfu mewn niferoedd ac enw da ers hynny.
- Llongyfarchiadau i Dylan Jones o Gastellior, Porthaethwy, a enillodd wobr Ffermwr Cig Eidion y Flwyddyn 'Farmers Weekly' ar gyfer 2024 yn ddiweddar. Dyfarnwyd y wobr iddo am wneud newidiadau beiddgar i'w fusnes ffermio sydd wedi arwain at fferm fwy ecogyfeillgar ac sy'n addas ar gyfer y dyfodol.
- Llongyfarchiadau i Tecwyn Jones o Ynys Môn a enillodd y brif gystadleuaeth ym Mhencampwriaeth y Gwartheg yn y Ffair Aeaf yn Llanelwedd yn ddiweddar.
- Llongyfarchiadau i Rhys Owen o Lanerchymedd a enillodd y brif gystadleuaeth yn yr adran Bîff Ifanc yn y Ffair Aeaf yn Llanelwedd yn ddiweddar.
- Mae'n bleser cael talu teyrnged i Poppy Roberts, 14 oed o Ynys Môn, a enillodd wobr Gofalwr Ifanc Eithriadol 2024 yn ddiweddar yn seremoni Plant Cymru yn Abertawe.
- Llongyfarchiadau i Daisy Richards, sy'n gweithio yng Nghartref Gofal Nyrsio a Dementia Fairways Newydd yn Llanfairpwll a dderbyniodd Wobr Aur Urddas mewn Gofal yn seremoni Gwobrau Gofal Cymru yng Nghaerdydd yn ddiweddar. Derbyniodd hefyd Wobr Efydd Gwasanaeth Rhagorol yn y digwyddiad.
- Dymuniadau gorau a gwellhad buan i'r Cynghorwyr Carwyn Jones a Ken Taylor sydd wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

- Llongyfarchiadau i Fwrdd Crwn Caergybi a digwyddiadau eraill dros gyfnod y Nadolig.

* * * *

Cydymdeimlodd ag unrhyw aelod etholedig, neu aelod o staff arall sydd wedi cael profedigaeth yn ddiweddar.

Safodd yr Aelodau a'r Swyddogion fel arwydd o barch.

## 4. RHYBUDD O GYNNIG YN UNOL Â RHEOL 4.1.13.1 O'R CYFANSODDIAD

- Cyflwynwyd – Rhybudd o Gynnig isod gan y Cynghorydd Kenneth P Hughes:-

*'Rydym yn galw ar Gyngor Sir Ynys Môn i fabwysiadu polisi hollgynhwysfawr o wrthwynebiad i ddatblygiad ffermydd solar yng nghefn gwlad Ynys Môn.'*

**Cafodd y cynnig hwn ei dynnu'n ôl.**

- Cyflwynwyd – Rhybudd o Gynnig isod gan y Cynghorydd Kenneth P Hughes:-

*'Rydym yn galw ar Gyngor Sir Ynys Môn, o ganlyniad i'r ansicrwydd o fewn y diwydiant amaethyddol, i gadarnhau ei ymrwymiad i amaeth ar Ynys Môn drwy sicrhau bod yr holl waith trwsio angenrheidiol i adeiladau amaethyddol yn Stad Mân-ddaliadau'r Cyngor Sir yn cael ei gwblhau fel mater o frys. Yn ogystal, bod adolygiad o'r fformiwla cyllido ar gyfer y Stâd Mân-ddaliadau yn cael ei chychwyn''.*

Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Aled Morris Jones.

Dywedodd y Cynghorydd Kenneth P Hughes bod y Cyngor yn arfer gwerthu mân-ddaliadau i ariannu gwaith cynnal a chadw ar weddill y ystâd. Mae gwerthu mân-ddaliadau'n lleiniau'r cyfleoedd i bobl sydd â diddordeb ym myd amaeth i rentu mân-ddaliad. Dywedodd bod hanner yr incwm rhent o'r ystâd bellach yn mynd i gronfa ganolog y Cyngor; ond yn y gorffennol roedd yr holl incwm yn mynd i'r gronfa ganolog. Mae tenantiaid yn gorfod aros misoedd, a thros flwyddyn mewn rhai achosion, i waith trwsio a chynnal a chadw gael ei wneud. Cyfeiriodd at un mân-ddaliad a oedd wedi bod yn wag ers blwyddyn a hanner.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor bod y Cyngor yn falch o fod yn berchen ar yr ail ganran uchaf o fân-ddaliadau yng Nghymru. Dywedodd bod yr ystâd yn hollbwysig i ffyniant yr ynys. Mae'n heriol dod o hyd i gyfalaf i gynnal a chadw'r ystâd ac nid oes cyllid penodol ar gael gan Lywodraeth Cymru. Dywedodd y bydd Cynllun Strategol yn cael ei lunio o fewn y Cyngor yn gysylltiedig â'r ystâd mân-ddaliadau ac y bydd ef fel Arweinydd y Cyngor yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet Cyllid a'r Aelod Cabinet Materion Gwledig i ofyn am ganiatâd i ryddhau cyllid cyfalaf o'r gyllideb gyfredol er mwyn cynnal a chadw adeiladau ac anheddau yn yr ystâd mân-ddaliadau ac i wireddu gweledigaeth sero net y Cyngor erbyn 2030.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo bod gan y Cyngor 92 o denantiaid a bod yr ystâd dros 6,000 o aceri. Nododd ymrwymiad y Cyngor i'w ystâd mân-ddaliadau a'r diwydiant amaeth ar yr Ynys, sy'n cyfrannu i'r economi wledig a chefnogi pobl ifanc i ffermio. Dywedodd bod £300k yn cael ei fuddsoddi ar hyn o bryd i gynnal a chadw a gwella'r ystâd. Bydd y Polisi Strategol ar gyfer Mân-ddaliadau yn weithredol am gyfnod o ddeng mlynedd ac mae Gweithgor trawsbleidiol wedi cael ei sefydlu i weld sut y gellir moderneiddio'r ystâd a mynd i'r afael â'r problemau ariannol i sicrhau dyfodol i'r ystâd mân-ddaliadau.

Dywedodd y Cynghorydd Aled Morris Jones bod amaeth yn bwysig i economi'r Ynys, ac roedd yn croesawu'r ffaith bod Gweithgor wedi cael ei sefydlu i drafod yr ystâd mân-ddaliadau. Nododd y bydd y Cynghorydd Kenneth P Hughes yn cynrychioli'r Grŵp Annibynwyr Môn ar y grŵp hwnnw gan mai ef sydd â'r ganran uchaf o fân-ddaliadau yn Ward Talybolion. Holodd pam bod ôl-groniad mewn gwaith cynnal a chadw ar hyn o bryd. Dywedodd yr Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo y bydda'r manylion yn cael eu hanfon at yr Aelodau maes o law.

Dywedodd y Cynghorydd Douglas M Fowlie bod Mân-ddaliadau'r Cyngor yn cyflwyno pobl ifanc i'r diwydiant amaeth. Cyfeiriodd at bolisïau amgylcheddol dadleuol Llywodraeth Cymru a dywedodd bod ffermwyr a thenantiaid yn wynebu rheoliadau llym yn gysylltiedig â storio dŵr budr a thail ar eu ffermydd. Holodd a oedd y Cyngor wedi cynnal arolwg i weld a yw ei ffermydd yn cwrdd â meini prawf y Llywodraeth ac ynghylch y cymorth allanol sydd ar gael i denantiaid. Holodd hefyd pwy fyddai'n atebol pe byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn gosod dirwy ar ffermydd sydd ddim yn cwrdd â'r rheoliadau amgylcheddol llym. Dywedodd yr Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo nad oedd ganddo'r ffigurau manwl wrth law, ond roedd yn sicr bod y Cyngor yn gweithio ar gynllun i gwrdd â'r rheoliadau a dywedodd y bydd y manylion ar gael maes o law. Dywedodd y Prif Weithredwr y bydd ymateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu ynglŷn â'r cyfrifoldebau / rhwymedigaethau yn gysylltiedig â storio dŵr budr a thail ar ffermydd. Dywedodd na all y Cyngor gynnig cymorth ariannol i denantiaid ond y gellid codi'r mater yn y llythyr y mae'r Arweinydd yn bwriadu'i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru y soniwyd amdano eisoes.

Gofynnodd y Cynghorydd Aled Morris Jones am Bleidlais wedi'i Chofnodi. Yn unol â pharagraff 4.1.18.5 yng Nghyfansoddiad y Cyngor mae'n rhaid i 9 Aelod ofyn am Bleidiais wedi'i Chofnodi. Nid oedd digon i gefnogi'r cais ac felly ni chynhaliwyd Pleidlais wedi'i Chofnodi.

Yn dilyn pleidlais unfrydol:-

**Derbyniwyd y Cynnig.**

- Cyflwynwyd – Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd Derek Owen :-

  *'Rydym yn galw ar Gyngor Sir Ynys Môn i geisio cyfarfod brys â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiogelwch Ynni a Sero Net, Ed Miliband, er mwyn ei alluogi i gadarnhau dyddiad dechrau ar gyfer prosiect Wylfa Newydd ar safle Wylfa yng Nghemaes.*

*Safle Wylfa yw'r gorau yn Ewrop ar gyfer lletya gorsafoedd pŵer niwclear neu orsafoedd.*

*Mae hyn yn dilyn y llythyr a anfonwyd gan Gyngor Cymuned Llanbadrig yn ceisio atebion.'*

Eiliwyd y Cynnig gan y Cynghorydd Aled Morris Jones.

Rhoddodd Arweinydd y Cyngor sicrwydd i'r Cyngor o'i ymrwymiad i ddenu datblygiad i safle Wylfa. Ers cael ei ethol yn Arweinydd dywedodd ei fod wedi cwrdd â'r Arglwydd Hunt a'i fod wedi'i wahodd ef a Mr Michael Shanks AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol yn yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net, i Ynys Môn. Rhoddodd yr Arweinydd sicrwydd i'r Cyngor y byddai'n ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiogelwch Ynni a Sero Net, Mr Ed Milliband MP yn ei wahodd i Ynys Môn i weld y safle rhagorol yn Wylfa.

Dywedodd y Cynghorydd Derek Owen bod angen dybryd am fuddsoddiad yng Ngogledd yr Ynys a bod angen atebion ynghylch dyfodol safle Wylfa.

Diolchodd y Cynghorydd Aled Morris Jones i'r Arweinydd am ei ymrwymiad cadarn i ddenu datblygiad i safle Wylfa, boed yn adweithydd mawr neu adweithyddion modiwlar bach (SMRs). Dywedodd bod *Great British Nuclear* wedi prynu safle Wylfa a bod angen penderfyniadau ynglŷn â dyfodol y safle. Yn ystod cyfarfod yn Nhŷ'r Cyffredin dan y lywodraeth flaenorol penderfynwyd na fyddai'r mater yn cael ei lywio gan wleidyddiaeth. Dywedodd bod blaenoriaethu'r llywodraeth bresennol yn cynnwys sicrwydd ynni a chwrdd â thargedau carbon ynghyd â sicrhau bod diwydiant niwclear y DU yn ganolog i gynhyrchu ynni. Bydd Cynhadledd Cymdeithas y Diwydiant Niwclear yn cael ei chynnal ar 5 Rhagfyr, 2024 a'r gobaith yw y bydd dyfodol safle Wylfa yn cael ei drafod bryd hynny.

Dywedodd y Cynghorydd Pip O'Neill bod rhaid ystyried y ganran uchel o bobl sy'n gwrthwynebu ynni niwclear er eu bod yn derbyn bod angen dybryd am swyddi ar yr Ynys, yn enwedig yng Ngogledd yr Ynys. Dywedodd y Cynghorydd Ken Taylor bod ganddo bryderon ynglŷn ag effaith gwastraff ymbelydrol o safle o'r fath ar genedlaethau'r dyfodol.

Dywedodd yr Arweinydd ei fod yn parchu barn y rheiny sydd yn gwrthwynebu cyfleusterau niwclear. Mae angen i'r Cyngor darbwyllo'r rheiny sydd ag amrywiaeth barn ar y mater a pharchu'r farn honno er mwyn sicrhau bod economi'r ynys yn llewyrchus ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Cynigodd y Cynghorydd Pip O'Neill bod y Rhybudd o Gynnig yn cael ei ddiwygio i ofyn am gadarnhad a fydd cyfleuster niwclear yn cael ei adeiladu yn wylfa ai peidio yn hytrach na gofyn am ddyddiad dechrau. Eiliwyd y cynnig i ddiwygio'r Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd Ken Taylor.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro nad oedd y cynnig yn dderbyniol ac mai'r unig newid fyddai'n dderbyniol fyddai ychwanegu neu ddileu geiriau.

Tynnodd y Cynghorydd Pip O’Neill ei gynnig i ddiwygio’r Rhybudd o Gynnig yn ôl.

Yn ystod y bleidlais:-

Pleidleisiodd y Cynghorydd Ken Taylor yn erbyn y Cynnig. Fe wnaeth y Cynghorydd Arfon Wyn atal ei bleidlais.

**Derbyniwyd y Cynnig.**

**5. CYFLWYNO DEISEBAU**

Ni dderbyniwyd yr un ddeiseb.

**6. ADOLYGIAD RHEOLI TRYSORLYS BLYNYDDOL AR GYFER 2023/24**

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog 151 fel y’i cyflwynwyd i’r Pwyllgor Gwaith ar 22 Hydref, 2024 i’w dderbyn gan y Cyngor.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid a Gwasanaethau Tai ei bod yn ofynnol i’r Cyngor, yn unol â rheoliadau a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, lunio adolygiad rheoli’r trysorlys blynyddol o’i weithgareddau a’r dangosyddion darbodus a thrysorlys gwirioneddol ar gyfer 2023/24. Dywedodd bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, yn unol â’r Cynllun Dirprwyo, wedi craffu ar yr adroddiad ar 19 Medi 2024 a’i gyflwyno i’r Pwyllgor Gwaith heb sylwadau ar 22 Hydref 2024. Penderfynodd y Pwyllgor Gwaith gyflwyno’r adroddiad i’r Cyngor llawn heb sylwadau pellach.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr Adolygiad Rheoli Trysorlys Blynyddol ar gyfer 2023/24 sy'n cadarnhau bod y gweithgareddau Rheoli Trysorlys a gynhaliwyd yn ystod 2023/24 yn unol â Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2023/24 ac y cydymffurfiwyd â'r cyfyngiadau a nodir yn y strategaeth.**

**7. DATGANIAD CYFRIFON 2023/24 AC ADRODDIAD ISA 260**

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog 151 fel y’i cyflwynwyd i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio at 27 Tachwedd, 2024 i’w dderbyn gan y Cyngor.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid a Gwasanaethau Tai bod y Datganiad Cyfrifon drafft 2023/2024 wedi cael ei gyflwyno i archwilwyr allanol y Cyngor, Archwilio Cymru, i’w archwilio ar 28 Mehefin, 2024. Yn amodol ar gadarnhad y Cyngor, bydd y Cyfrifon yn cael eu llofnodi gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 a Chadeirydd y Cyngor a byddant yn cael eu cyhoeddi yn dilyn derbyn barn derfynol yr Archwilydd. Estynnwyd y dyddiad cau statudol ar gyfer cwblhau'r Cyfrifon Archwiliedig ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 i 30 Tachwedd 2024 ond oherwydd yr amserlen cyfarfodydd dyma’r cyfle cyntaf i’r Cyngor ystyried y Datganiad Cyfrifon a cheir ei lofnodi wedi hynny.

**PENDERFYNWYD derbyn Datganiad Cyfrifon 2023/24 ac awdurdodi Cadeirydd y Cyngor Sir a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 i arwyddo'r cyfrifon.**

**8. CYDBWYSED GWLEIDYDDOL PWYLLGORAU**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Democratiaeth i'w dderbyn gan y Cyngor.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor bod newid yng nghydbwysedd gwleidyddol y Cyngor sy'n effeithio dyraniad seddi ar rai pwyllgorau yn dilyn canlyniadau isetholiad ward Talybolion ym mis Hydref.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Cadarnhau'r trefniadau cydbwysedd gwleidyddol ar gyfer dyrannu seddi pwyllgor.**
- **Bod Arweinyddion y Grwpiau yn hysbysu'r Pennaeth Democratiaeth cyn gynted ag y bo modd ynglŷn ag unrhyw newid o ran aelodaeth grwpiau ar Bwyllgorau.**

**9. DATGANIAD POLISI GAMBLO 2025 – 2028**

Cyflwynwyd y Datganiad Polisi Gamblo 2025/2028 i'w gymeradwyo gan y Cyngor.

Yn absenoldeb yr Aelod Portffolio Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd dywedodd yr Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion bod yn rhaid i'r Cyngor fabwysiadu Datganiad Polisi Gamblo bob tair blynedd, yn unol â Deddf Gambo 2005. Mae'r Polisi hwn yn nodi'r modd y bydd y Cyngor yn cyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas â rheoleiddio sefydliadau gamblo.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Datganiad Polisi Gamblo ar gyfer 2025-2028.**

Daeth y cyfarfod i ben am 3.30 pm

**CYNGHORYDD GLYN HAYNES**
**CADEIRYDD**